# Adroddiad Arolygu

**Cylch Chwarae Dechrau'n Deg Dros yr Enfys**

**Canolfan Gymunedol Shaftesbury**
**Stryd Evans**
**Casnewydd**
**NP20 5LD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/05/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Chwarae Dechrau'n Deg Dros yr Enfys

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaeth Gofal Plant a Chwarae Cyngor Dinas Casnewydd |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Nid oes angen rhoi gradd** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Nid oes angen rhoi gradd** |
| **Yr Amgylchedd** | **Nid oes angen rhoi gradd** |
| **Arwain a Rheoli** | **Nid oes angen rhoi gradd** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn, ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y plentyn, ac mae pwyslais cryf ar roi cyfle i'r plant arwain eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae'r plant yn setlo'n dda ac yn fodlon eu byd. Maent yn cael cyfleoedd i ddod yn annibynnol ac i feithrin sgiliau da drwy amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd chwarae o ansawdd. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos â'i gilydd a'r staff sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Darperir amrywiaeth dda o deganau, adnoddau a chyfarpar i hybu dysgu a datblygiad y plant. Mae'r amgylchedd yn ddeniadol, yn lân ac yn ddiogel, ac mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i fonitro ei addasrwydd, gan gwblhau asesiadau risg a gwiriadau dyddiol.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol mewn ymateb i COVID-19.

Caiff y gwasanaeth ei reoli mewn ffordd drefnus iawn ac mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn deall yr angen i gadw gwybodaeth ac i ddiweddaru'r holl wybodaeth yn rheolaidd. Mae'r staff yn cael cyfleoedd datblygiadol ardderchog er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn parhau'n gyfredol. Caiff y sesiynau hyn eu rhannu â gwasanaethau Dechrau'n Deg lleol eraill. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth uchel i lesiant y plant a'r staff a chaiff y staff eu cefnogi'n dda yn unigol ac fel tîm i gyflawni eu rolau.

| Llesiant | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion beunyddiol ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a'r staff. Maent yn gwybod beth i'w ddisgwyl yn ystod pob sesiwn ac yn edrych ymlaen at dreulio amser yn y gwasanaeth. Maent yn cael rhyddid i ddewis eu gweithgareddau, ac yn gwybod y byddant yn cael help neu gymorth os byddant yn gofyn amdano. Er enghraifft, mae'r plant yn gallu symud o amgylch yr ystafell a dewis o blith yr amrywiaeth eang o deganau a gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn chwarae'n hyderus, gan fynegi boddhad â'u llwyddiannau. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus ac yn datblygu hunan-barch da. Maent yn awyddus i ddangos eu lluniau a'u gwaith celf a siarad amdanynt, ac maent yn edrych ymlaen at fynd â'r rhain adref i'w rhieni. Maent yn mynd at y staff i gael cysur a sicrwydd yn ôl yr angen. Caiff y plant eu hannog i siarad, ac mae staff ymatebol yn gwrando arnynt.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu ac ehangu eu diddordebau. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig sy'n mwynhau archwilio'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r plant yn cael cyfleoedd ar gyfer chwarae dychmygus ac yn cael eu hannog i fynegi eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau chwarae rôl yn y gornel gartref a defnyddio brics i adeiladu tŷ. Mae'r plant yn cael cyfleoedd ar gyfer chwarae egnïol dan do, gan gynnwys beiciau, trawstiau cydbwyso a chwarae â pheli. Rhoddir pecyn gweithgareddau chwarae gweithgar i'r plant ei ddefnyddio gartref hefyd. Mae'r plant yn dysgu am natur a gwyddoniaeth. Er enghraifft, maent yn dangos y pryfed cop a'r pryfed eraill sydd wedi'u harddangos ar y bwrdd natur i'w gilydd.

Mae gan y plant gydberthnasau cadarn â'r staff ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn garedig tuag at eu ffrindiau ac yn chwarae’n hyderus â'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i gymdeithasu, ac yn edrych ymlaen at amser byrbrydau. Maent yn dangos pleser mawr pan fyddant yn cael eu hoff ffrwyth. Mae'r plant yn cael dewis. Er enghraifft, maent fel arfer yn dewis eu bwyd a'u diodydd eu hunain, ond ni chaiff yr arfer hwn ei weithredu yn ystod y pandemig er mwyn lleihau'r risg o ledaenu heintiau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn golchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn deall y drefn o dacluso cyn cael byrbryd a phan fydd y gweithgareddau yn newid. Maent yn gwisgo eu cotiau eu hunain pan fyddant yn mynd adref ac yn mwynhau'r ymdeimlad o gyflawniad wrth gwblhau'r tasgau hyn.

## Gofal a Datblygiad — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae systemau effeithiol ar waith i fonitro iechyd a diogelwch y plant. Mae'r gymhareb rhwng nifer y staff a'r plant yn uwch na'r gymhareb ofynnol. . Caiff pob damwain a digwyddiad ei gofnodi a'i werthuso gan y person â chyfrifoldeb, a chaiff pob cofnod ei lofnodi gan y rhieni. Mae gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith sy'n hyrwyddo lles y plant. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldeb i fod yn wyliadwrus ac maent yn glir ynghylch y prosesau i'w dilyn i ddelio ag unrhyw bryderon. Mae'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu ac yn cael yr holl wybodaeth gyfredol berthnasol.  Mae ymarferion tân misol yn sicrhau bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel. Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf ac maent yn hyderus wrth ddelio ag unrhyw fân anafiadau.

Mae'r tîm o staff yn cydweithio'n dda i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19. Mae hyn yn cynnwys trefniadau glanhau dyddiol ac wythnosol. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd ac maent yn cadw pellter cymdeithasol cyhyd ag y bo'n bosibl. Mae'r plant yn cael byrbryd iach sy'n cynnwys ffrwythau ffres yn ystod pob sesiwn ac mae dŵr ar gael drwy'r amser. Mae'r staff yn sicrhau y caiff gwybodaeth yn ymwneud ag alergeddau'r plant ei rhannu ac y caiff y plant eu monitro'n ofalus.

Mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd garedig a gofalgar â'r plant, gan eu helpu i ddysgu a datblygu'n effeithiol. Maent yn gweithredu mewn ffordd gyson ac yn ystyried oedran a cham datblygu'r plant wrth reoli ymddygiad. Mae'r staff yn defnyddio llais tyner i dynnu sylw plant sy'n rhwystredig neu'n drist, ac yn canmol y plant am eu hymdrechion. Maent yn mwynhau eu rolau ac yn rhoi cysur i'r plant sy'n teimlo'n ofidus.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant i ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen er mwyn gweithio gyda'r plant i olrhain eu cynnydd a chynllunio gweithgareddau i gyflawni deilliannau penodol. Mae hyn yn cynnwys datblygiad personol a chymdeithasol, iaith a llythrennedd, datblygiad corfforol a sgiliau mathemategol. Defnyddir yr asesiadau hyn i ddarparu gwybodaeth pan fydd y plant yn dechrau'r ysgol.

| Yr Amgylchedd | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
|---|---|

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn darparu digon o le mewn neuadd fawr ar gyfer gweithgareddau'r plant. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant, a dileu'r risgiau hynny lle bo modd. Mae cofrestrau yn cofnodi'r amseroedd y mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Mae asesiadau risg trylwyr ar waith ar gyfer pob ardal o'r lleoliad, gan gynnwys yr holl weithgareddau. Mae gwaith adnewyddu yn mynd rhagddo ar yr ardal awyr agored, a fydd yn cynnwys gosod to i orchuddio'r ardal gyfan. Bydd y rhan hon o'r gwasanaeth yn darparu adnodd gwerthfawr i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae egnïol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau y caiff gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd ac arferol eu cynnal ar gyfer yr adeilad a'r cyfarpar fel mater o drefn.

Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'n darparu ardaloedd golau a llachar sydd â digon o le i'r plant archwilio. Ceir amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ac amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Gall y plant gael gafael ar deganau yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae digon o ddodrefn, teganau ac adnoddau ar gael ar gyfer maint y grŵp o blant. Mae'r adnoddau yn briodol ar gyfer cam datblygu'r plant ac yn hybu chwilfrydedd ac awydd i ddarganfod. Caiff y neuadd ei defnyddio gan grwpiau eraill yn ystod yr wythnos sy'n golygu bod yn rhaid rhoi'r cyfarpar i gadw dros y penwythnos.

## Arwain a Rheoli — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn fedrus ac yn brofiadol ac maent yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol iawn. Mae datganiad o ddiben clir ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg a chaiff y datganiad hwn ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau fel y bo angen. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gweithio'n agos gyda'r person â chyfrifoldeb er mwyn sicrhau y caiff anghenion y plant eu hystyried bob amser. .

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio'n galed i ddarparu gofal o'r ansawdd gorau i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant. Mae'r unigolion sy'n rhan o'r tîm yn ategu ei gilydd ac yn cydweithio'n dda. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith, cânt eu diweddaru'n rheolaidd ac maent yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Caiff gwiriadau eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant cyn iddynt ddechrau yn eu swydd. Mae digon o staff cymwys a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn cael gofal da bob amser.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i gael adborth gan y rhieni a'r plant am y gwasanaeth. Maent yn llunio dogfen flynyddol ar ansawdd y gofal ac yn gofyn am eu barn ac am syniadau o ran unrhyw newidiadau a gwelliannau. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un â'r person â chyfrifoldeb yn rheolaidd. Cânt eu hannog i godi unrhyw bryderon ac i rannu gwybodaeth. Mae cyfarfodydd staff hefyd yn eu hannog i rannu arferion da.

Mae'r staff mewn sefyllfa dda i ddiwallu anghenion yr holl blant sy'n cael gofal ganddynt. Caiff archwiliad hyfforddiant ei gwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Cynigir cyfleoedd dysgu priodol er mwyn galluogi aelodau unigol o'r staff i wneud eu gwaith ac i feithrin sgiliau personol a phroffesiynol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r ddarpariaeth. Maent yn datblygu strategaethau ac yn ceisio cyngor ac yn gobeithio darparu gwasanaeth dwyieithog yn y dyfodol agos.

Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau da iawn ag amrywiaeth o asiantaethau, gan gynnwys swyddogion Iaith a Chwarae sy'n cynnal sesiynau chwarae wythnosol â'r rhieni a'u plant. Mae partneriaid Iechyd ac Addysg hefyd yn rhoi cymorth er mwyn cefnogi datblygiad y plant fel y bo angen.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Dim

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
| --- |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/07/2021